

# Amserlen i'w hystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 5) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Hydref 2023

Ar 10 Hydref 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Rhif 5) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio a chyflwyno adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 16 Hydref 2023.

